## GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL CYMRU (WGOS)

# LLAWLYFR GWASANAETH: WGOS 3 GOLWG GWAN A THYSTYSGRIF NAM AR Y GOLWG CYMRU (CVIW)

### DYDDIAD GWEITHREDU: 20 HYDREF 2023

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu strwythur sy'n ei gwneud yn bosibl cyflawni WGOS 3.

Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni WGOS 3 er mwyn sicrhau unffurfiaeth o ran disgwyliadau i bobl Cymru.

Nid yw'n cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

**Dolenni defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| I weld fersiwn diweddaraf o'r Llawlyfr Clinigol WGOS hwn ewch i | www.eyecare.wales.nhs.uk |
| Sut i gofrestru ar gyfer darparu WGOS | www.eyecare.wales.nhs.uk |
| Ymholiadau am hyfforddiant, cyrsiau ac asesiadau | heiw.optometry@wales.nhs.uk |
| Ymholiadau am dalu a chofrestru | nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk |
| Tîm Golwg Gwan PCGC | low.vision@wales.nhs.uk |
| Cwestiynau'n ymwneud â WGOS | GOSWClinical.Lead@wales.nhs.uk |
| Porth Perspctif Cyngor Cymru i'r Deillion (WCB) | https://wcb-ccd.org.uk/perspectif |

**Rhybudd:**

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i www.eyecare.wales.nhs.uk am y fersiwn gyfredol.

# Cynnwys


Trosolwg WGOS 3 .... 3

Cymhwyso ar gyfer WGOS 3 yn seiliedig ar breswyliad .... 4

Gwasanaethau Symudol .... 4

ADRAN 1 WGOS 3 Golwg Gwan .... 5

1. Golwg Gwan (Asesu a Dilyniant) WGOS 3 .... 5
2. Canllawiau'r Gwasanaeth .... 6
3. Cymhwysedd Ymarferwyr a Hyfforddiant .... 6
4. Cyfarpar .... 7
5. Cymhwysedd Claf .... 8
6. Trosolwg o Asesiad Golwg Gwan WGOS .... 8
7. Trosolwg o'r Dilyniant Golwg Gwan .... 10
8. Darparu gwasanaeth cyfannol .... 12
9. Rhagnodi Cymhorthion Golwg Gwan .... 12
10. Ailgylchu a Dychwelyd Cymhorthion Golwg Gwan .... 13
11. Cymhorthion golwg gwan newydd a rhai sydd heb eu casglu .... 13
12. Hawlio Taliad .... 14
13. Canllawiau Clinigol .... 15
    - 13.1. Cwympiadau .... 15
    - 13.2. Iselder .... 15
    - 13.3. Lensys Peli .... 16

ADRAN 2 Tystysgrif Nam ar y Golwg WGOS 3 .... 18

14. Ardystiad Nam ar y Golwg WGOS 3 .... 18
15. Meini Prawf Cymhwysedd Ardystio Cleifion .... 18
16. Tystysgrif mewn Gofal Sylfaenol .... 19
17. Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr Ardystio Clinigol .... 19
18. Hawlio Taliad .... 20

# Trosolwg WGOS 3

Mae WGOS 3 ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Asesiadau Golwg Gwan a Dilyniant WGOS 3 a
- Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) WGOS 3

Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol yn 2023, disodlodd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Cymru) (GOS[W]), Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), Gwasanaethau Golwg Gwan Cymru (LVSW), a llawer o lwybrau gwasanaeth amrywiol, ychwanegol lleol.

Mae WGOS 3 yn llwybr gofal sylfaenol nad yw'n orfodol a ariennir gan y GIG er mwyn darparu asesiadau golwg gwan, cymhorthion golwg gwan ac ardystiad o nam ar y golwg (CVIW).

Golwg Gwan WGOS 3, Rhaid i ymarferwyr fod wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol gorfodol a ddarperir gan AaGIC. Yn ogystal, er mwyn darparu tystysgrif nam ar y golwg (CVIW), mae'n rhaid i'r Ymarferydd a'r Practis y maent yn darparu WGOS 3 ohono fod wedi eu rhestru ar gyfer WGOS 1 a 2 gorfodol a bodloni'r gofynion hynny. Ar hyn o bryd mae WGOS 3 yn cynnwys:

- Asesiadau Golwg Gwan a Dilyniant WGOS 3
- Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) WGOS 3

Er mwyn gallu parhau i gyflwyno WGOS 3, mae'n ofynnol i Ymarferwyr gynnal eu cymhwysedd yn y maes ymarfer hwn, gan gynnwys DPP hunan-arweiniol, a chwblhau hyfforddiant gorfodol (Diogelu Oedolion a Phlant lefel 1 a 2 cynhwysol bob 3 blynedd) ac yn ôl yr angen mewn ymateb i anghenion y gwasanaeth.

Rhaid i ymarferwyr WGOS 3 roi tystysgrif cofnod troseddol fanwl i'r Bwrdd Iechyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â hwy, os bydd Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, am achos rhesymol, yn rhoi hysbysiad iddynt ddarparu tystysgrif o'r fath.

Rhaid i ymarferwyr WGOS 3 gadw cofnodion, gwneud hawliadau am daliadau a chymryd rhan mewn archwiliadau yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023.

Ni ddylai Ymarferydd WGOS 3 ddirprwyo unrhyw ran o WGOS 3, gan gynnwys i Optometryddion / Optegwyr Cyflenwi, Optometryddion Cyn-gofrestru / Optegwyr Cyflenwi neu Optometryddion sy'n Fyfyrwyr / Optegwyr Cyflenwi.

# Cymhwyso ar gyfer WGOS 3 yn seiliedig ar breswyliad

Mae WGOS 3 ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru a/neu sydd ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru, ar yr amod eu bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf cymhwysedd clinigol.

NODER Dim ond mewn cyfeiriadau yng Nghymru y gellir cyflawni Gwasanaethau Symudol WGOS 3, p'un ai yw'r claf ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru ai peidio. Gweler yr adran ganlynol am ragor o wybodaeth.

# Gwasanaethau Symudol

Er mwyn darparu WGOS 3 fel gwasanaeth symudol, rhaid i'r Contractwr fod â Chytundeb Gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd y mae'r lleoliad lle mae'r gwasanaeth i'w ddarparu yn gysylltiedig ag ef.

Mae gan gleifion hawl i wasanaeth symudol os ydynt yn gleifion WGOS 3 cymwys y mae eu hamgylchiadau sy'n ymwneud â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn lleoliad cofrestredig.

Dylai Ymarferydd WGOS 3 atgyfeirio'r claf at Ymarferydd WGOS 3 arall os nad yw'n gallu darparu gwasanaeth symudol pan fo angen un.

Os nad yw claf yn bodloni'r meini prawf uchod ond yn dymuno i wasanaeth symudol gael ei gyflawni, gall Ymarferydd WGOS 3 y mae gan ei Gontractwr Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd y mae'r lleoliad lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn gysylltiedig ag ef, ddarparu apwyntiad mewn lleoliad symudol a hawlio'r ffi Asesiad Golwg Gwan neu Ddilyniant ar gyfer Golwg Gwan priodol, ond ni fydd modd hawlio ffi symudol.

Dim ond yng Nghymru y gellir cyflawni gwasanaethau symudol WGOS 3, boed y claf ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru neu beidio.

Rhaid i'r rheswm dros fod angen gwasanaeth symudol gael ei gofnodi yng nghofnod y claf.

Nid oes gan gleifion mewnol ysbytai hawl i wasanaethau symudol WGOS 3.

Ni chaiff Contractwr hawlio WGOS 3 fel gwasanaeth symudol oni bai:

- bod ganddo Gytundeb Gwasanaeth WGOS 3 gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol;
- bod y claf neu ei ofalwr yn gofyn am wasanaeth symudol; a
- bod amgylchiadau'r claf mewn perthynas â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn lleoliad cofrestredig.

Ni ellir darparu WGOS 3 mewn Ysbytai, Carchardai nac unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS 3 ac mae gan fyrddau iechyd eu cytundebau gwasanaeth eu hunain.

Ni ellir cyflwyno WGOS 3 mewn Ysgolion Arbennig.

Nid oes angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddarparu gwasanaeth symudol. Fodd bynnag, dylai'r Ymarferydd allu cyfiawnhau'n rhesymol pam y cafodd ei gynnal, a rhaid i'r rheswm dros yr asesiad symudol gael ei nodi'n glir ar gofnod y claf.

# ADRAN 1 WGOS 3 Golwg Gwan

## 1. Golwg Gwan (Asesu a Dilyniant) WGOS 3

Nod y gwasanaeth yw cefnogi'r rhai sy'n colli eu golwg trwy ddarparu cymhorthion golwg gwan, cyfeirio at wasanaethau eraill a chynnig gwybodaeth am fywyd bob dydd a chyflyrau llygaid. Mae'r gwasanaeth am ddim yn y pwynt cyswllt i bob claf a darperir unrhyw gymhorthion golwg gwan a ragnodir ar fenthyciad drwy GIG Cymru

1.1. Dylid cynnig atgyfeiriad i unrhyw gleifion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth. Mae cleifion o bob oed yn gymwys i gael mynediad at y gwasanaeth gan fod cymhwysedd yn seiliedig ar angen clinigol.

1.2. Mae claf yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth pan fydd wedi cael Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gellir cwblhau hyn yn union cyn yr Asesiad Golwg Gwan neu'r Dilyniant) **a** bod gan y claf o leiaf un o'r canlynol:

- Craffter golwg pellter yn y ddau lygad o 6/12 neu waeth;
- Craffter golwg agos o N6 neu waeth gydag ychwanegiad darllen +4.00;
- Nam ar y golwg a/neu nam sylweddol yn y maes gweledol; neu
- Dystysgrif o Nam ar y Golwg neu o Nam Difrifol ar y Golwg.

1.3. Ceir rhestr o Ymarferwyr achrededig ar wefanGofal Llygaid Cymru.

# 2. Canllawiau'r Gwasanaeth

WGOS 3: Darperir gwasanaethau Golwg Gwan gan Optometrydd / Ymarferwyr Meddygol Offthalmig / Optegwyr Cyflenwi a restrir ar restr Offthalmig y GIG neu'r Rhestr Weinyddol sy'n cadw'r cymwysterau angenrheidiol (gweler yr adran achredu / cofrestru).

2.1. Yr Ymarferwr yn hytrach na'r Practis sydd wedi'i gofrestru i ddarparu Golwg Gwan WGOS 3. Rhaid i'r Practis fod â chytundeb gwasanaeth a/neu gytundeb gwasanaeth symudol gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfeiriad lle darperir y gwasanaeth.

2.2. WGOS 3: Darperir gwasanaethau Golwg Gwan trwy Asesiadau Golwg Gwan, a Dilyniannau Golwg Gwan.

2.3. Gellir darparu Asesiadau Golwg Gwan a Dilyniant WGOS 3 o fewn Practis Optometreg neu o fewn lleoliad symudol.

2.4. Rhaid i'r Ymarferwr hysbysu Tîm Golwg Gwan PCGC am ba bractis(au) y mae'n darparu'r gwasanaeth ynddynt. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i daliadau gael eu gwneud ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio a monitro'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

2.5. Dylai unrhyw Ymarferydd neu Gontractwr Golwg Gwan WGOS 3 a restrir fel rhai sy'n cynnig y gwasanaeth allu cynnig apwyntiad i berson cymwys o fewn pythefnos i'r dyddiad y mae'r claf yn ymholi am y gwasanaeth neu'n cael ei atgyfeirio iddo. Dylai pob agwedd ar y gwasanaeth fod ar gael i bob claf sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

# 3. Cymhwysedd Ymarferwyr a Hyfforddiant

3.1. Er mwyn cael ei achredu, mae'n rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Cyflenwi feddu ar Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Golwg Gwan Coleg yr Optometryddion a chwblhau modiwlau gorfodol gwasanaeth-benodol a ddarperir trwy Gwella Iechyd Cymru gan gynnwys:

- Iselder;
- Cwympiadau;
- Lensys Peli; a
- Golwg Gwan WGOS 3 a phrosesau CVIW
- Diogelu Oedolion a Phlant Lefel 1 a 2 (gofynnol bob 3 blynedd)

3.2. Mae hefyd yn ofynnol i Optegwyr Cyflenwi sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth gwblhau:
Patholeg Oedolion; a
Phatholeg Plant.

3.3. Rhaid i ymarferwyr WGOS 3 ddarparu tystysgrif cofnod troseddol fanwl i'r Bwrdd Iechyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â hwy, os bydd Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, am achos rhesymol, yn eu hysbysu y dylent ddarparu tystysgrif o'r fath.

3.4. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn darparu nifer cyfyngedig o leoedd a ariennir ar gyfer achrediad Golwg Gwan 3 WGOS 3 yn flynyddol. Dyfernir y lleoedd hyn mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol WGOS, gan roi blaenoriaeth i feysydd gwasanaeth lle ceir angen. Lle bo angen, darperir cyfarpar golwg gwan.

3.5. Gall ymarferwyr hunan-ariannu'r hyfforddiant i ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, nid oes sicrwydd y byddai'r cyfarpar golwg gwan yn cael ei ariannu gan GIG Cymru, ac efallai y bydd yn ofynnol i'r Ymarferydd dalu am y cyfarpar golwg gwan sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r manylebau. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r pecyn yn unol â newidiadau i'r fanyleb.

# 4. Cyfarpar

Mae angen set safonol o gyfarpar ar gyfer darparu Golwg Gwan WGOS 3

Rhaid i'r set lawn o gyfarpar golwg gwan fod ar gael i'r Ymarferydd lle bynnag y mae'n darparu'r asesiadau golwg gwan, gan gynnwys os yw'r rhain yn cael eu darparu mewn lleoliad symudol.

4.1. Pan ddarperir cyfarpar wedi'i ariannu i Ymarferydd, bydd Ymarferydd Golwg Gwan WGOS 3 a enwir yn gyfrifol am y cyfarpar ac am ei gynnal a'i gadw. Mae Tîm Golwg Gwan PCGC yn cadw cofrestr o'r rhai sy'n gyfrifol am y cyfarpar. Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir yw hysbysu'r Tîm am unrhyw newid mewn amgylchiadau a/neu eitemau o gyfarpar.

4.2. Bydd nifer y cleifion a welir gan bob Ymarferydd yn cael ei adolygu gan Arweinydd Clinigol Cenedlaethol (NCL) WGOS bob blwyddyn. Lle nodwyd bod Ymarferydd wedi cwblhau llai na phum Asesiad Golwg Gwan neu Weithgareddau Dilynol WGOS 3 o fewn cyfnod o 12 mis, efallai y bydd Arweinydd Clinigol Cenedlaethol WGOS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymarferydd ddychwelyd y cyfarpar a ariennir gan y GIG fel y gellir ei ddefnyddio gan Ymarferydd achrededig arall. Yn yr achos hwn efallai y bydd yr Ymarferydd yn cadw ei achrediad ond efallai y bydd angen iddo ariannu ei gyfarpar golwg gwan ei hun er mwyn darparu gwasanaeth.

4.3. Pan fydd Ymarferydd yn prynu ei gyfarpar golwg gwan ei hun, rhaid iddo fodloni manyleb safonol cyfarpar Golwg Gwan WGOS 3. Cyfrifoldeb yr Ymarferydd yw cynnal a chadw'r cyfarpar a gwneud newidiadau yn ôl yr angen yn unol ag unrhyw newidiadau i'r fanyleb.

# 5. Cymhwysedd Claf

Mae cymhwysedd yn seiliedig ar angen clinigol. Mae gan bawb sydd â nam ar eu golwg nad yw adferiad llawn yn bosibl, gyda sbectol gonfensiynol neu lensys cyffwrdd, ac sy'n achosi cyfyngu ar eu bywydau bob dydd hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth.

5.1. Mae WGOS 3 yn rhad ac am ddim yn y pwynt cyswllt i bob claf cymwys, waeth beth fo'i hawl i WGOS 1 a 2.

5.2. Mae claf yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth pan fydd wedi cael Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat o fewn y flwyddyn ddiwethaf (gellir cwblhau hyn yn union cyn yr Asesiad Golwg Gwan) **a** bod gan y claf o leiaf un o'r canlynol:

- craffter golwg (VA) pell yn y ddwy lygad o 6/12 neu waeth;
- craffter golwg agos o N6 neu waeth gydag ychwanegiad darllen +4.00D;
- nam ar weithrediad y golwg a/neu nam sylweddol yn y maes gweledol; neu
- ardystiad o Nam ar y Golwg neu o Nam Difrifol ar y Golwg.

5.3. Pan fydd claf yn cael ei atgyfeirio i'r gwasanaeth naill ai drwy hunanatgyfeiriad neu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, darparwr gofal a gweithwyr/asiantaethau cymorth eraill, dylai'r Ymarferydd wirio canlyniadau Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat diwethaf y claf i gadarnhau cymhwysedd. Lle nad yw'r rhain ar gael, dylai'r Ymarferydd drefnu neu gynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat i gadarnhau cymhwysedd cyn cynnal Asesiad Golwg Gwan WGOS 3.

5.4. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Ymarferydd ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Asesiad Golwg Gwan WGOS 3 i glaf nad yw ei gymhwysedd wedi'i gynnwys yn 5.2 drwy anfon e-bost at Arweinydd Clinigol Cenedlaethol WGOS yn low.vision@wales.nhs.uk. Dylai'r cais amlinellu unrhyw wybodaeth berthnasol am y nam ar y golwg, yr anawsterau a brofir gan y claf a'r canlyniad a ddymunir o gynnal yr asesiad. Dylid cynnwys unrhyw wybodaeth ategol sydd ar gael.

# 6. Trosolwg o Asesiad Golwg Gwan WGOS

Disgwylir i Asesiad Golwg Gwan gymryd rhwng 45-60 munud.

Lle bo'n berthnasol, gellir cynnal archwiliadau eraill yn yr un apwyntiad, er enghraifft Archwiliad Llygaid WGOS 1.

6.1. Mae gan y claf hawl i Asesiad Golwg Gwan 3 WGOS:

- Wrth ddod i mewn i'r gwasanaeth;

- Pan fydd y claf yn cael ei weld gan bractis am y tro cyntaf a ddim wedi cael asesiad Golwg Gwan o fewn y 12 mis diwethaf;
- Pan, ar ôl cael Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat, mae golwg y claf wedi newid yn sylweddol; a/neu
- Bod newidiadau sylweddol yn amgylchiadau personol y claf.

6.2. Dylai Ymarferydd WGOS 3 ddefnyddio ei ddisgresiwn clinigol i gynnal Asesiad Golwg Gwan arall os bernir ei fod yn glinigol angenrheidiol a'i fod er lles gorau'r claf. Mae'r mesurau diogelu arferol o ran gwneud penderfyniadau yn berthnasol a rhaid cofnodi'r rhesymau a'r amgylchiadau perthnasol dros gynnal yr asesiad yn y cofnod clinigol.

6.3. Pan nad oes gan bractis unrhyw gofnodion Golwg Gwan hanesyddol ar gyfer y claf, dylai'r Practis gysylltu â Thîm Golwg Gwan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru cyn dechrau asesiad. Bydd hyn yn galluogi'r Tîm i roi gwybod i'r Practis pryd y cynhaliwyd asesiad ddiwethaf, a manylion unrhyw gymhorthion golwg gwan a roddwyd yn flaenorol i'r claf.

6.4. Rhaid cynnal Asesiad Golwg Gwan wyneb yn wyneb, mewn practis neu mewn lleoliad symudol, lle mae'r claf a'r Ymarferydd yn yr un ystafell.

## ARCHWILIAD ASESIAD GOLWG GWAN

6.5. Mae Asesiad Golwg Gwan yn ymarferiad datrys problemau nad oes ond un ateb cywir iddo. Mae gan yr Ymarferydd yr hawl i ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu ar fformat a chynnwys yr asesiad, ond rhaid ymdrin â'r meysydd ymchwilio a ganlyn a rhoi tystiolaeth ohonynt ar y cofnod clinigol:

a) Sefydlu hanes achos y claf:
   - Hanes ociwlar / gweledol i gynnwys diagnosis (os yw'n hysbys), statws cofrestru (nam ar y golwg / nam difrifol ar y golwg), cywiriadau optegol cyfredol / dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio
   - Statws meddygol presennol – iechyd cyffredinol, meddyginiaeth yn nodi unrhyw nam ar y clyw, problemau symudedd / deheurwydd
   - Statws cymdeithasol e.e. a yw'n byw ar ei ben eu hun? A yw'n gweithio / mewn addysg? Ydy o'n gallu gwneud gweithgareddau o ddydd i ddydd fel coginio, darllen yr hyn a ddaw drwy'r post, cymryd ei feddyginiaeth?
   - Hobïau
   - Cefnogaeth a dderbynnir/ gyrchir ar hyn o bryd

b) Asesu gweithrediad golwg y claf:
   - Craffter golwg (VA) pell ac agos neu olwg (wedi'i gofnodi ar fformat LogMAR)
   - Beth y gellir ei weld gyda'u cymhorthion golwg gwan presennol
   - Sensitifrwydd Cyferbyniad

c) Ystyried yr angen am gymorth emosiynol a chymorth gofal gan gynnwys:
   - cwblhau holiadur Offeryn Asesu Risg Cwympiadau (FRAT) er mwyn sefydlu lefel risg y claf o gwympo a gallu ymdopi'n briodol (rhaid ei gyflawni ar gyfer pob claf); a
   - sgrinio iselder (rhaid ei gyflawni ar gyfer pob claf)

d) Penderfynu pa Gymorth(ion) Golwg Gwan sy'n gweddu i anghenion y claf – gan gofnodi'r VA a gyflawnwyd

e) Rhoi gwybodaeth briodol a pherthnasol i gleifion e.e., gwybodaeth am eu cyflwr llygaid, y cymhorthion sydd wedi’u rhagnodi a gwasanaethau / sefydliadau eraill sydd ar gael iddynt

f) Ystyried yr angen am gymorth emosiynol a chymorth gofal a, lle bo’n berthnasol, cynnig, a chyda’u caniatâd, eu cyfeirio at asiantaeth arall sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu ateb penodol, er enghraifft gofal cymdeithasolneu’r trydydd sector

g) Os canfyddir clefyd newydd/newid patholeg sydd angen atgyfeiriad, dylid cyfeirio cleifion yn unol â llwybrau lleol a chenedlaethol

h) Lle bo’n briodol, dylid cynnig y dewis i gleifion gael eu hatgyfeirio i gwblhau Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) i dystio bod person yn gymwys i gael ei gofrestru fel rhywun â nam ar ei olwg (SI) neu nam difrifol ar ei olwg (SSI).

i) Mewn partneriaeth â’r claf, dylid cytuno ar ddyddiad yr apwyntiad golwg gwan nesaf lle bo’n briodol, a dweud wrth y claf y gall atgyfeirio ei hun ar gyfer Dilyniant Golwg Gwan pe bai angen hynny arno.

j) Yn dilyn Asesiad Golwg Gwan, dylid cysylltu â chleifion ddeufis ar ôl iddynt gasglu eu cymhorthion golwg gwan. Mae hyn er mwyn gwirio bod y cymhorthion golwg gwan yn briodol ac yn cael eu defnyddio'n gywir, y gweithredwyd ar atgyfeiriadau a bod unrhyw anghenion newydd yn cael eu nodi. Gellir cynnal y cyswllt hwn dros y ffôn a dim ond os yw'r alwad yn amlygu'r angen am ymchwiliad pellach y mae angen gwneud apwyntiad wyneb yn wyneb (Dilyniant Golwg Gwan WGOS 3).

6.6. Os canfyddir yn ystod yr Asesiad Golwg Gwan fod y VA wedi gostwng 1 llinell (0.10 LogMAR) o'i gymharu â'r hyn a fesurwyd yn yr Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat diwethaf, dylid cyfeirio'r claf am WGOS 2: Band 1.

6.7. Os bydd y claf yn rhoi gwybod am unrhyw symptomau gweledol newydd, dylid gwneud trefniadau i’r claf gael WGOS 2: Band 1.

# 7. Trosolwg o’r Dilyniant Golwg Gwan

Disgwylir i archwiliad Dilynol Golwg Gwan gymryd rhwng 15-30 munud.

7.1. Mae archwiliad Dilynol Golwg Gwan yn darparu parhad o Asesiad Golwg Gwan neu Ddilyniant Golwg Gwan blaenorol. Mae’r apwyntiad wyneb yn wyneb yn galluogi’r Ymarferydd Golwg Gwan i:

- Sefydlu sut y llwyddodd y claf i ymdopi â’r teclyn golwg gwan a gweithio ar unrhyw broblemau y daeth ar eu traws;
- Sicrhau mai'r cymhorthion a'r sbectol a roddwyd yw'r rhai mwyaf priodol;
- Darparu hyfforddiant sylfaenol ynghylch defnyddio'r cymorth(ion);
- Egluro pwyntiau nad ydynt wedi eu deall neu a anghofiwyd o'r asesiad;

- Ymdrin â phroblemau nad oedd gan yr Ymarferydd amser i’w trafod mewn apwyntiad blaenorol, e.e. caiff telesgopau eu cyflwyno'n aml ar ôl asesu gallu'r claf i ddefnyddio cymorth golwg gwan syml; a
- Gwirio cynnydd atgyfeirio i asiantaethau eraill.

7.2. Gall Dilyniant Golwg Gwan fod naill ai:

- Wedi’i drefnu
  Mae'r apwyntiad yn cael ei drefnu ar ôl cwblhau Asesiad Golwg Gwan neu Ddilyniant Golwg Gwan ar adeg a awgrymir gan yr Ymarferydd Golwg Gwan. Bydd ymarferwyr fel arfer yn cynnig apwyntiad Dilynol i gleifion yn flynyddol.

- Heb ei drefnu
  Mae'r apwyntiad yn cael ei drefnu pan fydd y Practis yn cael gwybod bod y claf yn cael anawsterau a bod yr Ymarferydd Golwg Gwan yn ystyried ei fod yn glinigol angenrheidiol i'r claf gael Dilyniant Golwg Gwan.

7.3. Nid oes cyfyngiad ar nifer yr apwyntiadau Dilyniant Golwg Gwan y gall claf eu cael. Bydd y nifer sydd eu hangen yn dibynnu ar y claf, beth sydd wedi'i ragnodi a gwasanaethau eraill sydd ar gael yn yr ardal. Mae Ymarferwyr Golwg Gwan yn rhydd i arfer eu barn glinigol i bennu pa mor aml y mae angen i glaf gael ei weld ar gyfer apwyntiadau dilynol, gan gofnodi angen clinigol yng nghofnod y claf, lle bo'n briodol. Gall Dilyniannau Golwg Gwan sy’n rhy aml achosi i Fwrdd Iechyd gwestiynu a ddylai gadw Perfformiwr / Contractwr ar ei restr.

7.4. Rhaid cynnal y Dilyniant Golwg Gwan wyneb yn wyneb, yn y practis neu mewn lleoliad symudol, lle mae'r claf a'r Ymarferydd yn yr un ystafell.

## ARCHWILIAD DILYNIANT GOLWG GWAN

7.5. Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros y Dilyniant Golwg Gwan ac anghenion y claf.

7.6. Dylid nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y sesiwn Dilyniant ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan, gan roi tic yn y blwch 'Dilyniant'.

7.7. Os canfyddir bod y VA wedi gostwng o un llinell (0.10 LogMAR) yn ystod y Dilyniant Golwg Gwan o’i gymharu â’r hyn a fesurwyd yn yr Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat diwethaf, dylid atgyfeirio’r claf ar gyfer WGOS 2: Band 1.

7.8. Os bydd y claf yn rhoi gwybod am unrhyw symptomau gweledol newydd, dylid gwneud trefniadau i’r claf gael WGOS 2: Band 1.

# 8. Darparu gwasanaeth cyfannol

Dylai pob Ymarferydd Golwg Gwan WGOS 3 lunio rhestr o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg, gwasanaethau cyflogaeth a sefydliadau gwirfoddol, llwybrau rhagnodi cymdeithasol byrddau iechyd a sut i atgyfeirio at y rhain. Gellir dod o hyd i wasanaethau ar-lein trwy borth Persbectif Cyngor Cymru i'r Deillion.

8.1. Er mwyn ymdrin â holl anghenion cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, efallai y bydd angen atgyfeirio at asiantaethau eraill a rhannu gwybodaeth ag eraill.

8.2. Dylai ymarferwyr drafod yn llawn â chleifion y rhesymau dros argymell atgyfeirio i wasanaethau eraill, gan ganiatáu i'r claf wneud dewis cwbl wybodus am yr atgyfeiriad.

8.3. Dylai ymarferwyr nodi'r asiantaethau y mae'r unigolyn yn cael ei gyfeirio atynt.

# 9. Rhagnodi Cymhorthion Golwg Gwan

Mae rhestr o'r holl ddyfeisiau sydd ar gael i'w harchebu yng Ngwasanaeth Golwg Gwan WGOS 3 i'w gweld yng Nghatalog WGOS 3.

9.1. Er nad oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y cymhorthion golwg gwan a ragnodir, disgwylid mai dim ond mewn achosion eithriadol y byddai mwy na phump o gymhorthion golwg gwan yn cael eu rhagnodi ar gyfer pob asesiad.

9.2. Ni ddylid rhagnodi cymhorthion golwg gwan dyblyg fel arfer. Ond dylai unrhyw un dan 19 oed mewn addysg amser llawn gael yr opsiwn o ddwy set o gymhorthion golwg gwan. Un i'w ddefnyddio gartref ac un i'w ddefnyddio yn y lleoliad addysgol.

9.3. Gellir rhagnodi cymhorthion golwg gwan o ganlyniad i Asesiad Golwg Gwan a Dilyniant Golwg Gwan.

9.4. Mewn amgylchiadau prin, gellir archebu dyfeisiau nad ydynt yng Nghatalog WGOS 3 ar gyfer claf. I archebu unrhyw beth nad yw yn y catalog, dylid gwneud cais ysgrifenedig yn egluro pam fod angen eitem nad yw yn y catalog i'r unigolyn. Dylid anfon hwn at Arweinydd Clinigol Cenedlaethol WGOS i'w adolygu drwy low.vision@wales.nhs.uk. Sylwch, os cymeradwyir cais am ddyfais nad yw yn y catalog, gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r ddyfais gyrraedd y claf.

9.5. Mewn achosion eithriadol, os oes angen cyngor ar Ymarferydd Golwg Gwan ar yr hyn a allai fod yn addas i'r claf, dylai'r Ymarferydd drafod yr achos ag Arweinydd Clinigol Cenedlaethol WGOS i ddod o hyd i ateb priodol i'r claf.

## CYMHORTHION ELECTRONIG

9.6. Gan fod cymhorthion golwg gwan electronig yn ddrud, rhaid i'r claf eu treialu am o leiaf bum diwrnod llawn cyn eu harchebu. Os bydd yr Ymarferydd yn fodlon ar ôl yr amser hwnnw y byddai un yn ddefnyddiol i'r claf ac y gall ei weithredu, yna gellir gwneud archeb. Rhaid i Ymarferwyr Golwg Gwan nodi dyddiad(au) y cyfnod prawf ar yr archeb.

### LENSYS PELI

9.7. Mae lensys Peli wedi'u cynllunio i helpu cleifion â hemianopia homonymig gan eu bod yn cynnig ffordd i'r claf gynyddu'r maes gweledol ar yr ochr nad yw'n gweld. O'r rhai sydd â hemianopia homonymig, dim ond rhai fydd yn addas ar gyfer treialu'r lensys.

9.8. Os bydd y claf yn rhoi cynnig arnynt yn ystod yr apwyntiad ac yn teimlo'u bod yn ddefnyddiol, rhoddir y lensys i'r claf. Rhaid i'r Ymarferydd Golwg Gwan gofnodi'n glir bod y claf wedi 'cymryd' y lensys fel bod Tîm Golwg Gwan y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn nodi bod angen lensys newydd ar gyfer y pecyn arddangos.

## 10. Ailgylchu a Dychwelyd Cymhorthion Golwg Gwan

Rhoddir cymhorthion golwg gwan ar fenthyg i'r claf a chaiff y rhai a ddychwelir eu hailgylchu lle bo modd.

Os nad oes angen cymhorthion golwg gwan bellach ar y claf, dylid ei ddychwelyd i'w Hymarferydd Golwg Gwan.

10.1. Dylid cael gwared ar gymhorthion golwg gwan sydd wedi torri neu sy'n fudr iawn na fyddent yn addas i'w hailddefnyddio ar lefel practis a dylai Ymarferwyr lenwi Ffurflen Dychwelyd neu Ffurflen Amnewid ac anfon y ffurflen at Dîm Golwg Gwan PCGC.

10.2. Dylid llenwi Ffurflen Dychwelyd neu Ffurflen Amnewid pan fydd cymhorthion golwg gwan yn cael eu dychwelyd a allai fod yn addas i'w hailgylchu. Dylai'r Practis anfon y teclyn(nau) a'r ffurflen wedi'i chwblhau at y Cyflenwr Golwg Gwan gan ddefnyddio labeli cyfeiriad rhadbost Golwg Gwan WGOS.

10.3. Dylid dychwelyd y cymhorthion golwg gwan cyn gynted â phosibl. Ni ddylid eu storio yn y Practis.

## 11. Cymhorthion golwg gwan newydd a rhai sydd heb eu casglu

11.1. Os oes angen un arall ac nad oes cymhorthion golwg gwan i'w ddychwelyd, gellir anfon y Ffurflen Dychwelyd neu'r Ffurflen Amnewid wedi'i chwblhau at Dîm Golwg Gwan PCGC i'w phrosesu.

11.2. Os bydd cymhorthion golwg gwan yn datblygu nam (ac nad ydynt wedi'u gollwng na'u torri) a'u bod o dan flwydd oed, mae'n bosibl y cânt eu hamnewid dan warant y gwneuthurwr heb unrhyw gost i'r claf na GIG Cymru. Mae'n bwysig dangos hyn yn glir ar y Ffurflen Amnewid ac anfon yr eitem ddiffygiol yn ôl at y Cyflenwr Golwg Gwan gyda'r ffurflen.

11.3. Rhaid dychwelyd cymhorthion golwg gwan heb eu casglu i'r Cyflenwr Golwg Gwan. Rhaid i'r Practis wneud ymdrech resymol i gysylltu â'r claf o leiaf deirgwaith, ac mae'n rhaid nodi hyn ar gofnod y claf. Os nad yw'r claf yn casglu'r cymhorthion golwg gwan o fewn tri mis, dylid dychwelyd y cymhorthion golwg gwan i'r cyflenwr. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae ar y claf angen y cymhorthion golwg gwan ond nad yw'n gallu eu casglu am reswm dilys, e.e. cyfnod yn yr ysbyty, gellir eu cadw yn y practis am fwy o amser a dylid cofnodi'r rheswm hwn ar gofnod y claf.

# 12. Hawlio Taliad

I hawlio WGOS 3: Asesiad Golwg Gwan neu Ddilyniant Gwasanaeth, rhaid i'r Ymarferydd/Practis anfon copi o'r Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan at Dîm Golwg Gwan PCGC.

12.1. Pan fydd yr apwyntiad wedi'i gwblhau mewn lleoliad symudol, er mwyn hawlio'r Ffi Gwasanaeth Symudol, rhaid ticio'r blwch 'hawliad symudol' ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan, a sicrhau bod y cerdyn wedi'i anodi'n glir gan amlinellu cymhwyster y claf ar gyfer yr asesiad symudol.

12.2. Dim ond un ffi symudol y gellir ei hawlio am bob ymweliad â'r claf. Er enghraifft, os yw'r claf yn cael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ac Asesiad Golwg Gwan ar yr un diwrnod, rhaid hawlio'r ffi symudol unwaith yn unig.

12.3. Bydd cartrefi preswyl yn cael eu hystyried fel un cyfeiriad ac fel un uned llety at ddiben cyfrifo ffioedd y Gwasanaeth Symudol sy'n daladwy. Yn unol â hynny, mae ffi ymweld is yn daladwy mewn perthynas â WGOS a ddarperir i drydydd preswylydd a phreswylydd dilynol yn ystod un ymweliad. Ond lle mae gan breswylwyr mewn tai gwarchod gyfeiriadau post unigol, dylid ystyried y rhain fel ymweliadau unigol a dylai ffi Gwasanaeth Symudol fod yn daladwy ar gyfer pob un.

12.4. Lle cynhelir Asesiad Golwg Gwan neu Ddilyniant Golwg Gwan WGOS 3 mewn lleoliad symudol, rhaid nodi hyn ar y cerdyn cofnodi Golwg Gwan, gan gynnwys os nad yw'r ffi symudol yn cael ei hawlio, e.e. pan fydd y ffi symudol yn cael ei hawlio ar gyfer Archwiliad Llygaid WGOS 1 o'r un claf ar yr un diwrnod. Mae'n rhaid i'r cofnod nodi a yw'r ffi symudol uwch (preswylydd cyntaf neu ail breswylydd mewn cyfeiriad) neu'r ffi is (trydydd preswylydd neu breswylydd dilynol mewn cyfeiriad) yn cael ei hawlio.

12.5. Mae'r holl wybodaeth ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan yn bwysig ac felly mae'n rhaid cwblhau pob adran ar gyfer Asesiad Golwg Gwan. Bydd hawliadau'n cael eu dychwelyd yn awtomatig heb eu talu os nad yw'r cardiau cofnod wedi'u cwblhau'n briodol a byddant yn cael eu dychwelyd i'r Ymarferydd golwg gwan.

12.6. Ar gyfer asesiadau Dilyniant Golwg Gwan, gall yr Ymarferydd ddefnyddio barn glinigol ynghylch y camau gweithredu sydd eu hangen, felly dim ond adrannau priodol y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan sydd angen eu cwblhau.

12.7. Rhaid i'r Ymarferydd Golwg Gwan nodi'n glir ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan a yw'r episod yn Asesiad Golwg Gwan neu'n Ddilyniant Golwg Gwan drwy dicio'r blwch priodol.

# 13. Canllawiau Clinigol

## 13.1. CWYMPIADAU

- Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r holiadur FRAT i'w helpu i bennu lefel y risg o godwm y mae claf yn ei wynebu ac felly helpu i gwblhau'r adran risg o gwympo ar y cerdyn cofnodi.
- Diffiniad Cwymp - Digwyddiad lle mae unigolyn yn dod i orffwys ar y llawr neu lefel is arall gyda neu heb golli ymwybyddiaeth (NICE 2004).
- Dylid cyfeirio cleifion y canfyddir eu bod mewn perygl o gwympo (naill ai drwy sgorio 3 neu uwch ar holiadur FRAT neu yn ôl disgresiwn clinigol yr Ymarferydd Golwg Gwan) at y Meddyg Teulu neu at y gwasanaethau cwympiadau lleol os ydynt ar gael.

| **Holiadur FRAT**<br>*(Un pwynt i'w roi am bob ateb 'oes/ydy')* | **Oes/Ydy** | **Nac oes/Nac ydy** |
|---|---|---|
| A oes hanes o unrhyw godwm yn y flwyddyn flaenorol? | | |
| A yw'r claf yn cael pedair meddyginiaeth neu fwy y dydd? | | |
| A oes gan y claf ddiagnosis o strôc neu Glefyd Parkinson? | | |
| A yw'r claf yn dweud bod ganddo unrhyw broblemau gyda chydbwysedd? | | |
| A yw'r claf yn methu codi o gadair sydd ar uchder pen-glin? (Gofynnwch i'r claf sefyll i fyny o gadair o uchder pen-glin heb ddefnyddio ei freichiau.) | | |
| **Cyfanswm sgôr FRAT** | | |

## 13.2. ISELDER

- Dylai pob claf sy'n cael asesiad Golwg Gwan WGOS 3 gael ei sgrinio am iselder drwy ofyn y ddau gwestiwn canlynol: (wedi'u cynnwys ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan)

    a) **Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi cael eich poeni yn aml gan deimlo'n ddi-hwyl, yn isel neu'n anobeithiol?**

b) **Yn ystod y mis diwethaf, ydych chi wedi cael eich poeni gan y ffaith nad oes gennych chi fawr o ddiddordeb neu bleser mewn gwneud pethau?**

- Os bydd y claf yn ateb 'ydw' i'r naill gwestiwn neu'r llall, dylid ticio'r blwch 'Iselder' yn yr adran 'Risgiau wedi'u Nodi'. Dylid cynnig atgyfeiriad at y Meddyg Teulu hefyd. Os derbynnir atgyfeiriad at Feddyg Teulu, yna dylid ticio'r blwch 'Atgyfeirio at Feddyg Teulu am iselder' o dan 'Adroddiad/Atgyfeiriad at Asiantaethau Eraill'.

## 13.3. LENSYS PELI

- Canllaw i Ymarferwyr lens Peli; Fresnel Press-ons 40Δ wedi'u torri'n barod

- Gall y lens Peli ddarparu ehangiad o hyd at 30° o'r maes gweledol. Mae'r prismau pŵer uchel yn symud gwrthrychau o'r ochr nad yw'n gweld i ochr weld y maes gweledol. Unwaith y bydd yn ymwybodol o'r gwrthrych gall y claf symud y pen i weld y gwrthrych yn fwy manwl yn y rhan o'r maes gweledol sy'n gweld yn ôl yr angen.

- Cleifion Addas
  - Cleifion â hemianopia
  - Llawn cymhelliant
  - Cleifion heb esgeulustod gweledol
  - Rhai sydd angen mwy o faes gweledol i gynorthwyo symudedd

- Rheoli Disgwyliadau: Diben lensys Peli yw ehangu'r maes i helpu cleifion â cholled maes gweledol gyda symudedd ac ymwybyddiaeth o rwystrau. Ni fwriedir iddynt fod yn gymorth gyrru neu ddarllen. Mae astudiaethau wedi dangos bod tua 50% o gleifion yn dal i ddefnyddio eu lensys Peli ar ôl blwyddyn. Mae cymhelliant uchel ac addysg y cleifion yn y defnydd o'r lensys yn hanfodol i sicrhau'r lefel uchaf posibl o lwyddiant.

- Gosod y lensys

a) Dylid gosod lensys Peli ar un llygad dros lensys pellter golwg sengl arferol sy'n ffitio'n dda. Os na wisgir sbectol bydd angen pâr cario.

b) Glanhewch lensys y sbectol gan roi sylw arbennig i'r arwyneb cefn.

c) Marciwch ganol cannwyll y llygad (fel gyda ffitio lens amrywffocal) ar yr ochr hemianopig h.y. os yw'n hemianopia de yna marciwch y lens dde. Ar gyfer hemianopia chwith y lens chwith.

d) Tynnwch y sbectol oddi ar y claf a gosodwch y templed ffitio ar flaen y lens gan gyfateb dot canol y templed â dot canol cannwyll y llygad sydd wedi'i nodi ar y lens

NEU

marciwch flaen lens y sbectol 6mm uwchben a 6mm islaw dot cannwyll y llygad.

e) Gosodwch y lensys Peli tuag at gefn lens y sbectol gyda'r pen pigfain (sy'n dynodi prism)

- Hyfforddi Cleifion
    a) Dylai'r claf bob amser edrych trwy ran ganol y lens ac nid trwy'r lensys Peli gan y bydd hyn yn arwain at ddiplopia.

    b) Mae'r prismau'n symud gwrthrychau o'r rhan o'r maes gweledol nad yw'n gweld i'r rhan o'r maes sy'n gweld.

    c) Yna bydd gofyn i'r claf symud y pen er mwyn gweld y gwrthrych gyda'r rhan sy'n gweld o'r maes gweledol. Bydd angen gwneud y symudiadau hyn yn fwriadol ar y dechrau ond gydag ymarfer dylai ddod yn fwy arferol i'r claf.

    d) Gellir dangos y symudiadau angenrheidiol i'r cleifion wrth i'r Ymarferydd ddal ei law allan i'r ochrau mewn ardal sydd wedi'i gorchuddio gan y prism. Pan fydd y claf yn canfod y llaw bydd angen iddo symud y pen tuag at yr ochr ddall i weld y llaw trwy ganol y lens. Gellir arddangos hyn a'i ymarfer gan amrywio safle'r llaw yn yr ochrau.

    e) Dylai'r claf hefyd roi cynnig ar 'daith hyfforddi' cyn gadael y Practis. Dylai hyn sicrhau bod y claf yn deall sut mae'r prismau'n rhoi syniad o wrthrychau ar yr ochr ddall.

    f) Gellir gosod y lensys un ar y tro er mwyn helpu i addasu os oes angen.

- Mae set brawf o Lensys Peli wedi'i chynnwys ym mhecyn cyfarpar Golwg Gwan WGOS 3 ac mae'n cynnwys:
    - 2 lens Peli
    - Cyfarwyddiadau ar gyfer eu gosod
    - Cyfarwyddiadau am eu glanhau
    - Templed addas
    - Ffrâm cludo plano os oes angen.

- Dylid cyflenwi lensys yn uniongyrchol o'r pecyn cyfarpar Golwg Gwan a'u nodi ar y Cerdyn Cofnodi Golwg Gwan fel 'cymhorthion wedi'u harchebu'. Bydd hyn yn annog Tîm Golwg Gwan PCGC i anfon lensys Peli newydd ar gyfer y pecyn cyfarpar Golwg Gwan.

- Mae angen cyfnod prawf o 4 wythnos, ac ar ôl hynny bydd angen i'r claf fynychu apwyntiad Dilynol Golwg Gwan. Os yw'r lensys yn llwyddiannus yna gall y claf gadw'r lensys a'r ffrâm cludo plano os yn berthnasol. Os nad yw'r claf yn dymuno parhau â'r lensys mae angen eu dychwelyd ynghyd â'r ffrâm cludo, os caiff ei ddefnyddio, at Dîm Golwg Gwan PCGC.

- Nid oes gan y lensys Peli sy'n cael eu glynu arnodd oes hir gan eu bod yn mynd yn fudr yn gyflym a gall amlygiad uwch fioled ddiraddio'r ansawdd optegol. Am y rheswm hwn, argymhellir bod cleifion sy'n defnyddio'r lensys yn cael eu gweld ar gyfer Dilyniant Golwg Gwan bob 6 mis fel y gellir archebu a gosod lensys newydd os oes angen.

# ADRAN 2 Tystysgrif Nam ar y Golwg WGOS 3

## 14. Ardystiad Nam ar y Golwg WGOS 3

14.1. Mae ardystio yn rhagofyniad ar gyfer cofrestru gyda nam ar y golwg. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu a chynnal cofrestr o bobl sydd yn breswylwyr arferol yn ardal yr awdurdod lleol ac sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu â nam ar eu golwg a'u clyw, sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau o ddydd i ddydd.

14.2. Mae cofrestru'n galluogi mynediad at wasanaethau a chymorth sydd wedi'u hanelu at gynnal annibyniaeth person, gan gynnwys yr hyn a gynigir gan Swyddogion Sefydlu a Swyddogion Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg.

14.3. Mae gan Ardystio Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) swyddogaethau ychwanegol hefyd. Mae'n caniatáu casglu gwybodaeth epidemiolegol am ddigwyddedd ac achosion ardystio nam ar y golwg yn y DU. Yng Nghymru, defnyddir CVIW i gydnabod cyffredinrwydd ardystio nam ar y golwg ac fe'i cydnabyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel tystiolaeth feddygol o golli golwg.

## 15. Meini Prawf Cymhwysedd Ardystio Cleifion

Dylai ymarferwyr gyfeirio at nodiadau canllaw Ardystio Nam ar y Golwg wrth benderfynu a yw claf yn gymwys i gael ardystiad (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru).

### 15.1 NAM DIFRIFOL AR Y GOLWG

- VA islaw 3/60 Snellen
- VA yn well na 3/60 ond yn is na 6/60 Snellen gyda maes gweledol wedi crebachu
- VA 6/60 Snellen neu uwch gyda maes golwg wedi crebachu yn enwedig os yw'r crebachiad yn rhan isaf y maes.

### 15.2 NAM AR Y GOLWG

- VA 3/60 i 6/60 Snellen gyda maes llawn
- VA hyd at 6/24 Snellen gyda chrebachiad cymedrol yn y maes, anhryloywderau yn sylweddau tryloyw'r llygaid neu aphakia
- VA o 6/18 Snellen neu hyd yn oed yn well os oes diffyg difrifol, er enghraifft hemianopia, neu os oes crebachiad amlwg yn y maes gweledol, er enghraifft yn y retinitis pigmentosa neu glawcoma.

# 16. Tystysgrif mewn Gofal Sylfaenol

Gall optometryddion sydd wedi'u rhestru i ddarparu **WGOS 1, 2 a 3 yn gynhwysol** (Optometryddion WGOS123) ardystio Nam ar y Golwg mewn Gofal Sylfaenol i gleifion y mae eu prif achos o golli golwg yn **Ddirywiad Macwlaidd Sych sy'n Gysylltiedig ag Oedran**.

**SYLWCH** Rhaid rhestru'r Optometrydd ar gyfer WGOS 1 a 2 ac ar gyfer WGOS 3 a chydymffurfio â'r gofynion cymhwysedd o dan WGOS 3: Golwg Gwan fel y nodir uchod.

# 17. Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr Ardystio Clinigol

Deunydd ategol:

Ffurflen CVIW (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)
Nodiadau esboniadol CVIW (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)
CVIW WHC 2022 (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)
Gwybodaeth cleifion CVI (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)

## 17.1 RHAN A: ADNABOD CLEIFION CYMWYS *(POB OPTOMETRYDD EHEW)*

- Mae'n rhaid bod Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat wedi'i gyflawni o fewn y 12 mis diwethaf.
- Pan nodir cymhwysedd ar gyfer ardystiad/newid cymhwysedd (Nam ar y golwg (SI) i Nam difrifol ar y golwg (SSI)), rhaid hysbysu claf o'i gymhwysedd i gael ardystiad a chael ei ardystio gan y clinigwr priodol yn y lleoliad gofal sylfaenol neu eilaidd. Rhaid i'r claf fod yn sicr bod ardystiad ym mhob lleoliad yn gyfwerth.
- Rhaid darparu gwybodaeth hygyrch berthnasol i gleifion ynghylch ardystiad ym mhob achos, p'un a yw atgyfeiriad am ardystiad yn cael ei dderbyn ai peidio.
- Ar gydsyniad y claf, rhaid gwneud atgyfeiriad perthnasol at weithiwr proffesiynol sy'n ardystio.
- Rhaid hefyd cynnig atgyfeiriad ar gyfer Asesiad Golwg Gwan WGOS 3 i'r claf, gyda gwybodaeth hygyrch am y gwasanaeth.

**SYLWER** Nid yw Asesiad Golwg Gwan WGOS 3 yn orfodol i gael mynediad at ardystiad gofal sylfaenol.

## 17.2 RHAN B: CYFLAWNI ARDYSTIAD MEWN GOFAL SYLFAENOL *(OPTOMETRYDDION GYDAG ACHREDIAD DEUOL EHEW AC LVSW)*

- Rhaid i'r apwyntiad ardystio gynnwys:
    - Sgwrs am fanteision ardystio
    - Esboniad o'r broses ardystio a chofrestru a rhannu gwybodaeth
    - Rhaid i'r Optometrydd ardystio WGOS 123 fod yn sicr bod y claf yn deall yn llawn beth fydd yn digwydd ar ôl cwblhau'r CVI, a lle bydd ei wybodaeth yn cael ei rhannu.
    - Cydsyniad llafar ynghylchl a hoffai'r claf yn hoffi symud ymlaen â'r broses
    - Os yw'r claf yn dymuno symud ymlaen, yna dylai'r Optometrydd gyda'r achrediad WGOS 123 deuol gynnal archwiliad iechyd llygaid er mwyn cadarnhau prif achos y nam ar y golwg gan gynnwys;
        - Mesur Craffter Golwg mewn un llygad ac yn y ddwy lygad
        - Archwiliad lamp hollt o'r segment blaen a'r lens
        - Asesiad o ddyfnder y siambr flaen (canolog ac ymylol, yr olaf fel dirprwy ar gyfer lled ongl)
        - Tonometreg
        - Archwiliad dwyochrog o'r ffwndws wedi'i ymledu gan ddefnyddio lamp hollt a lens Volk lle bo modd (oni bai y ceir golwg wych heb ymledu, ac os felly rhaid anodi hyn ar y cerdyn cofnodi)
        - Lle mae cymhwysedd yn seiliedig ar feysydd gweledol, dylid darparu archwiliad maes gweledol cysylltiedig diweddar y mae allbrint maes mesuradwy ar gael ohono, neu ei gyflawni os nad yw ar gael
        - Gweithdrefnau eraill yn ôl disgresiwn yr Optometrydd archwilio neu'r ymarferydd meddygol offthalmig (OMP)

- Rhaid llenwiffurflen CVIW (2022) (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru) yn unol â nodiadau canllaw Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)

- Ar ôl llenwi'r ffurflen CVI, dylid ei hanfon at
    i. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
    ii. Y claf
    iii. Yr Awdurdod Lleol (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru)
    iv. Meddyg Teulu'r claf
    v. Cedwir copi yng nghofnodion y claf

- Lle cynhelir archwiliad ociwlar CVI ond bod y claf yn penderfynu peidio â pharhau â'r ardystiad, yna dylid llenwi'r ffurflen hawlio archwiliad ociwlar CVI (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru a'i hanfon at PCGC).

# 18. Hawlio Taliad

Gwneir taliadau yn unol â dyddiadau terfyn taliadau WGOS.

## 18.1 CLAF YN CAEL EI ARDYSTIO GAN OPTOMETRYDD

- Dylid gwneud pum copi o'r ffurflen CVI (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru) (gweler y tabl isod am esboniad o'r hyn y dylid ei wneud gyda phob copi)

| Copi | Camau i'w cymryd: |
|---|---|
| 1 | Ei anfon i'r Swyddfa Ardystio<br>Y Swyddfa Ardystio<br>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>Llawr Gwaelod<br>Tŷ Cwmbrân<br>Ystad Parc Mamhilad<br>PONT-Y-PŴL<br>NP4 0XS<br>Gellir anfon copïau wedi'u sganio o gyfeiriad e-bost diogel i: nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk)<br>Sylwch fod hwn yn gyfeiriad gwahanol i'r cyflwyniad GOS |
| 2 | Ei roi yng nghofnod y claf |
| 3 | Ei roi i'r claf |
| 4 | Ei anfon at yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am yr ardal y mae'r unigolyn yn byw ynddi (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru) |
| 5 | Dylid cadw copi yng nghofnodion y claf |

## 18.2 ASESIAD ARDYSTIO ARCHWILIAD OCIWLAR *(NID YW'N ARWAIN AT ARDYSTIAD CLAF GAN OPTOMETRYDD)*

- Rhaid i'r Optometrydd lenwi ffurflen hawlio ardystio archwiliad ociwlar (Gweithwyr Proffesiynol - GIG Cymru) a'i hanfon at:

Y Swyddfa Ardystio
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Cwmbrân
Ystad Parc Mamhilad
PONT-Y-PŴL
NP4 0XS
Gellir anfon copïau wedi'u sganio o e-bost diogel i:
nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk)

Sylwch fod hwn yn gyfeiriad gwahanol i'r cyflwyniad GOS